Centre of expertise on child sexual abuse

# Graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol: Adolygu'r dystiolaeth

## Ymgorfforri tueddiadau mewn data swyddogol o 2024/25

Crynodeb gweithredol

Kairika Karsna a Stephanie Cain

Gorffennaf 2026



## Ynglŷn â'r awduron

Mae Kairika Karsna yn brif swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh). Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae Stephanie Cain yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Ymchwil a Gwerthuso yn y Ganolfan CPRh.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well I blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn **www.csacentre.org.uk**

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth ddiweddaraf ar raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cyflwyno dadansoddiad manwl o ddata o fodiwl cam-drin plant diweddaraf yr Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (a gynhaliwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2024), ein dadansoddiad blynyddol o ddata swyddogol ar gyfer 2024/25, a throsolwg o ddatblygiadau rhyngwladol diweddar o ran mesur nifer yr achosion o erledigaeth a chyflawni cam-drin plant yn rhywiol.

Yng ngoleuni'r ymchwil ddiweddaraf, rydym bellach yn amcangyfrif bod:

- o leiaf 20% o ferched a 10% o fechgyn yng Nghymru a Lloegr – tua un o bob chwech o blant yn gyffredinol – yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod
- bob blwyddyn, mae o leiaf 500,000 o blant yn dioddef cam-drin plant yn rhywiol gyda chyswllt 'wyneb-yn-wyneb' yng Nghymru a Lloegr – gyda llawer mwy yn profi cam-drin rhywiol nad yw'n cynnwys chyswllt ac/neu sydd yn digwydd ar-lein yn unig
- ymysg plant yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu cam-drin neu eu esgeuluso yn yr ysgol, bod un o bob tair yn profi cam-drin rhywiol (fel arfer ochr yn ochr â ffurfiau eraill o gam-drin neu esgeulustod).

## Graddfa cam-drin plant yn rhywiol

Mae'r modiwl cam-drin plant o fewn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn darparu'r data diweddaraf ar raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol. O'i gymharu â rhifynnau blaenorol, cyflwynodd modiwl 2024 fesur mwy cynhwysfawr o gam-drin plant yn rhywiol, trwy gynnwys am y tro cyntaf brofiadau o gam-drin plant yn rhywiol hyd at 18 oed yn hytrach na 16; gwella cwestiynau ar gam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein, a chasglu data ar raddfa cam-drin rhywiol a gyflawnir gan blant eraill.

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod 9.1% o boblogaeth Cymru a Lloegr sy'n oedolion – 4.3 miliwn o bobl – wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod. Gallai hyn fod wedi bod yn gam-drin 'cyswllt' – cael eich treiddio neu eich cyffwrdd mewn modd rhywiol, neu gael eich gorfodi i dreiddio neu gyffwrdd â chi eich hun – a/neu gam-drin 'di-gyswllt' fel datgelu amhriodol neu gael eich gorfodi i edrych ar ddelweddau rhywiol. Roedd canran y menywod a ddywedodd yn yr arolwg eu bod wedi cael profiad o gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod (13.9%) fwy na thair gwaith yn uwch na chanran y dynion a ddywedodd hynny (4.1%). Sylwch, fodd bynnag, bod ymatebwyr yr arolwg yn oedolion o bob oedran, felly roedd y cam-drin yn ystod plentyndod a adroddwyd ganddynt wedi digwydd dros sawl degawd.

Yr ymatebwyr ieuengaf – y rhai rhwng 18 a 24 oed, a oedd wedi bod yn blant yn fwyaf diweddar – oedd y mwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod: yn gyffredinol dywedodd 13.1% hynny, neu 21.7% o fenywod a 4.5% o ddynion. Dywedodd bron i un o bob pump (18.1%) o ymatebwyr benywaidd rhwng 18 a 24 oed eu bod wedi profi cam-drin rhywiol di-gyswllt, gan gynnwys mewn cyd-destunau ar-lein, yn ystod plentyndod.

Yn ôl yr adolygiad rhyngwladol diweddaraf o raddfa cam-drin plant yn rhywiol amcangyfrifir bod bron i un o bob pedair menyw sy’n oedolion ac un o bob chwech o ddynion sy’n oedolion yng Ngogledd Ewrop (Ynysoedd Prydain, y gwledydd Nordig a’r gwladwriaethau Baltig) wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant. Mae’r ffigurau hyn yn uwch nag a ganfuwyd mewn meta-ddadansoddiadau blaenorol.

Gan dynnu ar ddata gan yr ymatebwyr ieuengaf i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr, ac ar ganfyddiadau Gogledd Ewrop o’r adolygiad systematig byd-eang diweddaraf, rydym yn amcangyfrif bod tua **20% o ferched a 10% o fechgyn yng Nghymru a Lloegr wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod**.

Mae deall nifer yr achosion blynyddol yn bwysig i’r rhai sy’n llunio polisi a gwneud penderfyniadau ac sy’n mynd i’r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Yn seiliedig ar arolygon gyda phlant (neu rieni plant iau), amcangyfrifodd yr un adolygiad systematig byd-eang fod 3.4% o fechgyn a 5.2% o ferched yn gyffredinol yng Ngogledd Ewrop wedi profi cam-drin rhywiol cyswllt ‘wyneb-yn-wyneb’ yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda phlant hŷn yn fwy tebygol na rhai iau o fod wedi cael eu cam-drin yn ddiweddar. Gan gymhwyso’r canrannau hyn i’r ffigurau diweddaraf o’r boblogaeth blant yn ôl oedran, rydym yn amcangyfrif, **bob blwyddyn, bod o leiaf 500,000 o blant yng Nghymru a Lloegr yn profi cam-drin rhywiol cyswllt wyneb yn wyneb**. Mae’r ffigur hwn yn is o lawer na’r raddfa gyffredinol cam-drin plant yn rhywiol, gan nad yw’n cynnwys cam-drin mewn cyd-destunau ar-lein a cham-drin di-gyswllt wyneb yn wyneb.

Mae ymchwil ryngwladol yn dangos bod amcangyfrifon o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol gwelwyd cynnydd sylweddol wrth gynnwys cam-drin mewn cyd-destunau ar-lein: mewn un astudiaeth, oedd yn cynnwys cwestiynau am gam-drin ar-lein cynyddodd y canrannau cyffredinol o fwy na hanner. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cynnwys yr ystod lawn o brofiadau camdriniol mewn arolygon.

## Graddfa cam-drin plant yn rhywiol

Mae ymchwil sy’n pennu niferoedd gwirioneddol cam-drin plant yn rhywiol yn dal heb ei ddatblygu’n ddigonol ac mae’n heriol o ran methodoleg. Gan mai dim ond achosion o gam-drin sy’n dod i sylw asiantaethau ac sy’n bodloni trothwyon cyfreithiol a geir mewn cofnodion swyddogol, adlewyrchir patrymau gweithgarwch cyfiawnder troseddol yn hytrach na gwir raddfa troseddu. Mae’r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod rhwng 1% a 2% o ddynion sy’n oedolion yn cael eu dyfarnu’n euog o drosedd rywiol (nid o reidrwydd yn erbyn plant) ar ryw adeg yn eu bywydau, ond nid yw hyn yn rhoi gwybodaeth am nifer y bobl sy’n cam-drin plant yn rhywiol ac sy’n dal heb eu canfod.

Mae tystiolaeth ddiweddar o arolygon hunan-adrodd yn awgrymu bod cam-drin plant yn fwy cyffredin nag y mae cofnodion swyddogol yn awgrymu. Yn ôl meta-ddadansoddiad rhyngwladol o astudiaethau yn y boblogaeth gyffredinol dywedodd 4.5% o oedolion eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol cyswllt yn erbyn plant o unrhyw oedran, a dywedodd 6.5% eu bod wedi cyflawni cam-drin rhywiol di-gyswllt yn erbyn plant. Yn ôl yr awduron amcangyfrif bod 1.5% o oedolion wedi cymryd rhan mewn troseddau rhywiol cyswllt yn erbyn plant o dan 13 oed; ledled Cymru a Lloegr, byddai hyn yn cyfateb i oddeutu 735,000 o oedolion.

Mae’r dystiolaeth hefyd yn dangos pwysigrwydd gwahaniaethu rhwng diddordeb rhywiol mewn plant ac ymddygiad camdriniol rhywiol. Nid yw diddordeb rhywiol a throseddu rhywiol yn gyfystyr, ac mae nifeoredd troseddwyr yn amrywiol. Ymddengys bod cam-drin di-gyswllt yn fwy cyffredin na cham-drin cyswllt, tra bod yr ymchwil i gam-drin rhywiol gan fenywod a phlant, troseddu ar sail grŵp ac ymddygiadau ar-lein yn parhau i fod yn annigonol.

## Pwy sy'n cael ei effeithio gan gam-drin plant yn rhywiol?

Yn gyffredinol, dywedodd 29% o'r ymatebwyr i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024 – sy'n cyfateb i 13.6 miliwn o oedolion ledled Cymru a Lloegr – eu bod wedi profi rhyw fath o gam-drin neu esgeulustod yn ystod plentyndod. A dywedodd 9% eu bod wedi profi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod.

Dangosodd eu hymatebion fod cam-drin plant yn rhywiol yn aml yn digwydd yng nghyd-destun mathau eraill o gam-drin neu esgeulustod: dim ond 31% o'r ymatebwyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod a ddywedodd mai dyma'r unig fath o gamdriniaeth neu esgeulustod yr oeddent wedi'i brofi. Dywedodd tair rhan o bump (60%) eu bod hefyd wedi cael eu cam-drin yn emosiynol – ac roedd bron i chwarter (23%) wedi profi cam-drin emosiynol, cam-drin corfforol ac esgeulustod rhieni yn ystod plentyndod, yn ogystal â cham-drin rhywiol.

Roedd ymatebwyr a oedd wedi profi profiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod yn debygol o ddweud eu bod hefyd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant, er nad oedd yr arolwg yn archwilio a oedd y cam-drin wedi digwydd cyn, ar ôl, neu ochr yn ochr â'r profiadau hynny. Dywedodd dwy ran o bump (40%) o'r rhai a fu'n byw mewn cartref gofal neu mewn gofal maethu fel plentyn eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol ryw bryd yn ystod eu plentyndod, felly hefyd yn achos 34% o'r rhai a oedd wedi profi esgeulustod, 33% o'r rhai a oedd wedi byw gyda rhywun â phroblemau alcohol neu gyffuriau, a 33% o'r rhai a oedd wedi bod â chyflwr iechyd meddwl hirdymor neu anabledd yn ystod plentyndod.

Dywedodd un o bob chwech (17%) o ymatebwyr anabl eu bod wedi profi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, o'i gymharu ag un o bob 13 (8%) o ymatebwyr nad ydynt yn anabl. Roedd y gwahaniaeth mwyaf mewn perthynas ag adroddiadau am dreisio neu gam-drin treiddiol.

Roedd gwahaniaethau amlwg hefyd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. Dywedodd traean o'r ymatebwyr (34%) a oedd yn ddeurywiol ar adeg yr arolwg eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod, o'i gymharu â 16% ac 8% yn y drefn honno o'r rhai a oedd yn hoyw/lesbiaidd neu heterorywiol. Ac roedd chwarter (26%) o'r ymatebwyr a ddywedodd bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.

## Pwy sy'n cam-drin plant yn rhywiol, a ble mae'r cam-drin yn digwydd?

Yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024, dywedodd mwyafrif helaeth (91%) yr ymatebwyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod eu bod wedi cael eu cam-drin gan ddynion yn unig; adroddwyd am gam-drin gan fenywod yn unig gan 5%, a dywedodd 4% fod dynion a menywod wedi eu cam-drin yn rhywiol. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi cael eu cam-drin gan fenywod yn unig: ymhlith y rhai a oedd wedi cael eu treisio neu wedi profi cam-drin treiddiol pan oedden nhw'n fechgyn, dywedodd chwarter fod hyn wedi ymwneud â menywod yn unig.

Am y tro cyntaf, cyhoeddodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr wybodaeth ynghylch a oedd y bobl a oedd wedi cam-drin ymatebwyr yn rhywiol yn oedolion neu'n blant eraill. Dywedodd dwy ran o bump (40%) o'r ymatebwyr a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod fod hyn wedi cynnwys plant eraill o dan 18 oed, a dywedodd 70% ei fod wedi cynnwys oedolion. Roedd dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud bod plant eraill wedi bod cymryd rhan; roedd hyn yn wir am 65% o ymatebwyr gwrywaidd a oedd wedi cael eu treisio neu wedi profi cam-drin treiddiol.

Pan nododd ymatebwyr eu perthynas (os o gwbl) â'r bobl a oedd wedi eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod, dywedodd 14% ffrind, 11% ffrind i'r teulu, 8% perthynas arall, ac 8% arall cymydog. Nodwyd cariad/partneriaid presennol a blaenorol gan 8% a 7% o'r ymatebwyr hyn yn y drefn honno, tra bod traean (33%) yn dweud bod dieithryn wedi cymryd rhan, yn bennaf mewn perthynas â cham-drin di-gyswllt. Dywedodd canran uwch o ymatebwyr gwrywaidd (12%) nag ymatebwyr benywaidd (4%) eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan rywun mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, tra bod cam-drin gan bartner presennol neu flaenorol yn cael ei ddisgrifio'n fwy cyffredin gan ymatebwyr benywaidd (9% ac 8% yn y drefn honno) na chan ymatebwyr gwrywaidd (2% a 2%).

Roedd cam-drin plant yn rhywiol yng nghartref yr ymatebydd ei hun neu rywun arall yn gyffredin, yn enwedig mewn perthynas ag adroddiadau am dreisio neu gam-drin treiddiol: dywedodd 39% a 55% yn y drefn honno o'r ymatebwyr a oedd wedi profi'r categori hwn o gam-drin ei fod wedi digwydd yn y lleoliadau hyn. Ymhlith ymatebwyr a oedd wedi profi cam-drin di-gyswllt, dywedodd 34% ei fod wedi digwydd mewn man cyhoeddus a dywedodd 14% ei fod wedi bod ar-lein.

## Dweud wrth rywun am y cam-drin

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024 a oedd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod – 71% o ddynion a 53% o fenywod – nad oeddent wedi dweud wrth unrhyw un amdano ar y pryd. Os oedden nhw wedi dweud wrth rywun, fel arfer roedd yr unigolyn hwnnw neu honno yn berson yr oeddent yn ei adnabod yn bersonol: roedd 27% o fenywod a 16% o ddynion wedi dweud wrth aelod o'r teulu neu berthynas, tra bod 19% a 12% yn y drefn honno wedi dweud wrth ffrind. Dim ond 9% o ymatebwyr benywaidd a 4% o ymatebwyr gwrywaidd oedd wedi dweud wrth yr heddlu ar y pryd, ac roedd hyd yn oed llai wedi dweud wrth bobl eraill mewn swyddi o awdurdod.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â dweud wrth unrhyw un oedd embaras neu gywilydd. Dyma a adroddwyd gan 50% o ymatebwyr benywaidd a 48% o ymatebwyr gwrywaidd oedd heb ddweud wrth unrhyw un. Roedd rhesymau cyffredin eraill yn cynnwys ofn peidio â chael eu credu, a adroddwyd gan 29% o fenywod a 23% o ddynion; beio eu hunain, a adroddwyd gan 29% a 17% yn y drefn honno; a pheidio â gwybod bod y cam-drin yn anghywir, a adroddwyd gan 19% a 24% yn y drefn honno.

Roedd beio eu hunain yn arbennig o gyffredin ymhlith y rhai nad oeddent wedi dweud wrth unrhyw un ar ôl profi treisio neu gam-drin treiddiol, gyda 48% o ymatebwyr benywaidd a 31% o ymatebwyr gwrywaidd yn dweud eu bod wedi meddwl mai arnyn nhw oedd y bai am y cam-drin.

Dim ond 6% o'r ymatebwyr a ddywedodd bod rhywun mewn swydd swyddogol wedi dod yn ymwybodol o'r cam-drin heb i'r ymatebydd ddweud wrthynt. Mae hyn yn dangos bod yr ymateb proffesiynol i gam-drin rhywiol yn dibynnu'n helaeth ar gael gwybod amdano gan y dioddefwr, er gwaethaf tystiolaeth glir nad yw'r rhan fwyaf o blant yn dweud wrth unrhyw un am gam-drin rhywiol ar y pryd.

## Adnabod ac ymateb gan wasanaethau plant awdurdodau lleol

Dim ond canran fach o blant yr effeithir arnynt gan gam-drin rhywiol yw'r data a gofnodir ar wasanaethau plant awdurdodau lleol. Nid oedd data swyddogol yn ymwneud ag awdurdodau lleol Cymru yn 2024/25 wedi'i ryddhau ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn – ond yn Lloegr, cofnododd cyfanswm o 43,890 o asesiadau anghenion bryderon am gam-drin rhywiol neu gam-fanteisio'n rhywiol (wedi'u trin fel categorïau ar wahân yn yr asesiadau hyn) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r nifer isaf mewn degawd. Cofnodwyd cam-drin plant yn rhywiol fel pryder mewn 31,490 o asesiadau (2% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol), ond dim ond 12,400 oedd yn cofnodi pryderon ynghylch cam-fanteisio'n rhywiol ar blant (11% yn llai). Parhaodd y duedd ar i lawr yn nifer yr asesiadau sy'n nodi cam-fanteisio'n rhywiol bob blwyddyn ers 2017/18.

Ymhlith asesiadau'n cofnodi pryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol yn 2024/25, roedd dau o bob pump yn ymwneud â cham-drin gan blentyn arall a thri o bob pump â cham-drin gan oedolyn. Pan fo asesiad wedi cofnodi cam-drin rhywiol 'plentyn yn erbyn plentyn' fel pryder, nid yw'r data swyddogol yn dangos pa blentyn y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef; gall rhai achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol plant gael eu cofnodi mewn nifer o asesiadau.

Dim ond 2,190 o blant yn Lloegr a wnaed yn destun cynllun amddiffyn plant o dan y categori cychwynnol o gam-drin rhywiol yn 2024/25. Roedd hyn yn gynnydd bach (o ddim ond 30 cynllun) ers y flwyddyn flaenorol, ond yn dal i fod yr ail nifer isaf a gofnodwyd yn y 32 mlynedd y mae'r data wedi'i gyhoeddi ar eu cyfer. Cam-drin rhywiol oedd 3.5% o'r holl gynlluniau amddiffyn plant newydd, y ganran isaf ar y cyd erioed.

Roedd nifer y plant a wnaed yn destun cynllun amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol yn cyfateb i ddim ond 5% o'r 43,890 o asesiadau anghenion sy'n cofnodi pryderon ynghylch cam-drin rhywiol neu gam-fanteisio rhywiol. Roedd cynlluniau amddiffyn plant o dan y categorïau cam-drin corfforol, cam-drin emosiynol ac esgeulustod yn cyfateb i 6%, 24% a 34% o asesiadau anghenion yn y drefn honno.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roedd amrywiaeth eang ledled Lloegr yn nifer yr asesiadau sy'n nodi pryderon ynghylch cam-drin neu gam-fanteisio ar blant yn rhywiol mewn perthynas â'r boblogaeth blant leol. Roedd gan Swydd Efrog a'r Humber gyfraddau adnabod uwch na Llundain, Dwyrain Lloegr, De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cam-drin plant yn rhywiol yn llai cyffredin yn yr ardaloedd hynny. Dynododd pymtheg o awdurdodau lleol bryderon am gam-drin rhywiol mewn llai na un asesiad o anghenion am bob 1,000 o blant sy'n byw yn yr ardal.

Mewn ymchwil ar wahân i asesiadau anghenion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu bod yn teimlo y gall cam-drin rhywiol fynd ar goll yng nghyd-destun nifer o faterion eraill o amgylch y plentyn neu'r teulu, a disgrifiodd rhai y broses o gofnodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol fel 'un a arweinir trwy ddatgeliad' – gan awgrymu nad oedd gan weithwyr cymdeithasol hyder i gofnodi achos o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun gwybodaeth rannol neu gliwiau ymddygiadol er gwaethaf tystiolaeth gref yr arolwg bod datgeliad llafar yn annhebygol.

## Troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu

Yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2024/25, cofnododd yr heddlu 103,547 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol y gellir eu hadnabod: 2% yn fwy nag yn 2023/24. Troseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol oedd y categori mwyaf, cynnydd o 6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 42,017 o droseddau.

Wrth edrych ar droseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu yn gyffredinol, y cynyddion mwyaf mewn troseddau dinoethi a voyeuriaeth (yn erbyn oedolion neu blant) a gododd 29%. Mae'r ddau gategori troseddau yn cynnwys mathau newydd o droseddau a gyflwynwyd yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023.

Fel gyda'r data gan wasanaethau plant awdurdodau lleol, roedd amrywiad rhanbarthol eang yn nifer y troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd gan y heddlu o'i gymharu â'r boblogaeth blant leol: roedd gan heddluoedd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr gyfraddau cofnodi cymharol uwch na'r rhai yn Llundain, Swydd Hertford a De-ddwyrain Lloegr.

Ymhlith yr holl droseddau rhywiol lle cofnodwyd oedran y dioddefwr yn systemau data'r heddlu, roedd 40% o ddioddefwyr benywaidd a 58% o ddioddefwyr gwrywaidd o dan 18 oed ar adeg y drosedd. Gan mai dim ond 21% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr sydd o dan 18 oed, mae hyn yn awgrymu bod plant yn anghymesur o debygol o fod yn ddioddefwyr troseddau rhywiol a gofnodwyd gan yr heddlu.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 98,726 o ymchwiliadau gan yr heddlu i droseddau cam-drin plant yn rhywiol. O'r rhain, arweiniodd 14% at gyhuddiad neu wŷs, 1% at rybudd neu gamau unioni cymunedol, a 3% at weithgaredd dargyfeirio neu ymyrraeth arall. Daeth 13% arall i ben oherwydd nad oedd ymchwiliad pellach yn cael ei ystyried o fudd i'r cyhoedd, a chaewyd 58% oherwydd anawsterau o safbwynt tystiolaeth. Cyrhaeddodd y nifer a arweiniodd at gyhuddiad neu wŷs y lefel uchaf a gofnodwyd, sef 14,042; er bod gostyngiad o 10% yn y rhai a gaeodd oherwydd anawsterau o safbwynt tystiolaeth.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, yr oedd cyfran yr ymchwiliadau a ddaeth i ben gyda chyhuddiad yn dibynnu ar y math o drosedd: arweiniodd dwy ran o bump o droseddau cam-fanteisio rhywiol a thua thraean o droseddau grŵmio at gyhuddiad neu wŷs, tra bod cyfrannau is ar gyfer droseddau treisio, ymosodiadau rhywiol a gweithgarwch rhywiol.

Roedd amserlenni ymchwilio'n dal yn hir. Ar draws troseddau rhywiol yn erbyn oedolion a phlant (ond heb gynnwys troseddau delweddau), roedd hyd canalrifol ymchwiliad yr heddlu yn 65 diwrnod – a 103 diwrnod ar gyfer troseddau treisio. Cymerodd ymchwiliadau troseddau rhywiol sy'n arwain at gyhuddiad neu wŷs 275 diwrnod canolrifol (a 434 diwrnod ar gyfer troseddau treisio) i gyrraedd y pwynt hwnnw.

## Trafodion llys

Cynyddodd nifer y diffynyddion a fu'n destun achos yn eu herbyn am droseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol 17% yn 2024 i 10,791 – y ganran uchaf ers 20 mlynedd – tra bod y nifer a gafodd eu dyfarnu'n euog wedi cynyddu 13% i 8,388. Troseddau'n ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol oedd i gyfrif am ddwy ran o bump (42%) o erlyniadau am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, a bron i hanner (46%) o euogfarnau, tra bod erlyniadau am droseddau grŵmio i gyfrif am fwy na dwbl y ganran o gymharu â saith mlynedd ynghynt.

Yn unol â thueddiadau blynyddol, dynion oedd bron pob un o'r diffynyddion (99%) yn 2024 ar gyfer troseddau cam-drin plant yn rhywiol; cafodd diffynyddion o'r ddau ryw eu herlyn yn bennaf am droseddau delwedd a throseddau gweithgarwch rhywiol. Adlewyrchwyd y patrwm hwn yn yr euogfarnau. Diffynyddion yn eu 20au a'u 30au yw'r ganran fwyaf o erlyniadau cam-drin plant yn rhywiol, tra bod rhai dan 18 oed i gyfrif am ganran fach sy'n gostwng. O bron i dri chwarter y diffynyddion y cofnodwyd eu hethnigrwydd, roedd 90% yn Wyn, gyda chanrannau sylweddol is o grwpiau ethnig eraill; gallai hyn adlewyrchu proses annigonol o adnabod neu gofnodi achosion o gam-drin o fewn cymunedau ethnig lleiafrifol.

O'r diffynyddion a gafwyd yn euog am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, derbyniodd 41% ddedfryd o garchar ar unwaith, cafodd 38% ddedfryd ohiriedig, a 21% ddedfryd gymunedol; rhoddwyd dedfrydau cymunedol i 91% o blant dan 18 oed. Roedd dedfrydau o garchar ar gyfartaledd yn 64.4 mis, gyda chyfnodau hirach ar gyfer troseddau cyswllt fel treisio.

Parhaodd yr amser erlyn cyfartalog ar gyfer troseddau cam-drin plant yn rhywiol (ac eithrio troseddau delwedd) yn Llys y Goron i gynyddu ers cau llysoedd COVID-19, o 252 diwrnod yn 2020/21 i 375 diwrnod yn 2024/25; bu ychydig o ostyngiad mewn amseroedd cyfartalog ar gyfer troseddau delwedd o lefel 2023/24 i 182 diwrnod, saith yn fwy nag yn 2020/21.

## Llwybrau cyfiawnder troseddol yn dilyn euogfarn

Cynyddodd poblogaeth y bobl a fu'n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) o dan Gategori 1 – unigolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (yn erbyn oedolion neu blant) ac sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu – am y 10fed flwyddyn yn olynol i 73,049 ar 31 Mawrth 2025, 48% yn fwy na degawd ynghynt. Ar yr un dyddiad, roedd 73% o unigolion Categori 1 MAPPA o dan oruchwyliaeth yr heddlu, roedd 20% mewn carchar, a roedd 7% yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth prawf.

Yn ystod 2024/25, fe wnaed 7,221 o Orchmynion Atal Troseddwyr Rhywiol a Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol: cynnydd o 19% ar ffigur 2023/24, ac 86% yn fwy nag yn 2015/16. O ran nifer y Gorchmynion Hysbysu – a osodwyd ar bobl a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol dramor – gwelwyd cynnydd o 6% ond arhosodd yn is na lefelau 2022/23.

Roedd nifer y bobl a garcharwyd am droseddau cam-drin plant yn rhywiol ym mis Mehefin 2024 32% yn uwch na degawd ynghynt, tra bod cyfanswm poblogaeth y carchardai wedi aros yn sefydlog. Roedd o leiaf un o bob wyth o bobl sy'n treulio dedfrydau carchar ar unwaith yn y carchar am drosedd rywiol yn erbyn plant: o'r rhain, roedd 41% wedi cael eu dyfarnu'n euog am dreisio a 46% am ymosod yn rhywiol neu weithgaredd rhywiol, gyda dim ond 6% yn treulio dedfrydau am droseddau delwedd.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd 1,089 o bobl yn y carchar raglen ymddygiad troseddu rhywiol; roedd hyn ychydig yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol ac yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, ond roedd yn cynrychioli 20% o'r holl rai a ddechreuodd ar raglenni troseddau cyffredinol. Arhosodd y ganran a gwblhaodd y rhaglen yn sefydlog ar 1,098, tua 22%, Horizon yw'r rhaglen a gwblhawyd amlaf o hyd.

Ym mis Mawrth 2025, roedd nifer y bobl ag euogfarnau am droseddau rhywiol (yn erbyn oedolion neu blant) san ofal y gwasanaeth prawf yn 14% yn uwch na blwyddyn ynghynt. Ymhlith oedolion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a gafodd eu rhyddhau o'r carchar neu a gafodd ddedfryd heb garchar ddiwedd 2023, roedd 18% wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd arall o fewn 18 mis – ond dim ond 5% o'r aildroseddau hyn oedd yn rhywiol. Fodd bynnag, mae'r ganran ailadrodd swyddogol hon yn debygol o fod yn is na'r lefel aildroseddu wirioneddol.

## Casgliad

Yn rhifyn 2021 o'r adolygiad hwn, fe wnaethom amcangyfrif, ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd, fod tua un o bob deg o blant yng Nghymru a Lloegr – 15% o ferched a 5% o fechgyn – yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn 16 oed. Yng ngoleuni'r dystiolaeth ddiweddaraf, rydym bellach yn amcangyfrif bod **20% o ferched a 10% o fechgyn yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod plentyndod**, hyd at 18 oed.

Mae'r amcangyfrifon yn uwch oherwydd bod y dull mesur wedi gwella; mae cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau ar-lein wedi dod yn amlwg mewn arolygon hunan-adrodd oedolion; ac mae'n debygol y bydd mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol, a llai o stigma yn ei gylch, ymhlith pobl ifanc.

Rydym yn galw am roi mwy o flaenoriaeth i adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, er mwyn lleihau'r bwlch rhwng yr amcangyfrif o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol a nifer y dioddefwyr a nodwyd gan asiantaethau statudol. Mae angen i'r gweithlu gael mwy o wybodaeth, sgiliau a hyder wrth adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, fel y gallant adnabod a gweithredu ar arwyddion emosiynol, ymddygiadol a chorfforol sy'n awgrymu y gallai plentyn gael ei gam-drin yn rhywiol.

Hefyd mae angen arolwg pwrpasol o blant hŷn ac oedolion ifanc i ddeall yn well raddfa a natur bresennol cam-drin plant yn rhywiol – yn enwedig yng ngoleuni'r nifer uwch o achosion o gam-drin plant yn rhywiol a adroddwyd gan yr ymatebwyr iau i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2024. Rydym yn galw am gyllid gan y Llywodraeth i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnal yr arolwg y mae wedi'i ddatblygu.

Centre of expertise on child sexual abuse

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn **www.csacentre.org.uk/research-resources/research-evidence/scale-nature-of-abuse/**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

26552km26